Manchester Metropolitan University

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Llunio Dyfodol Diogelu • Shaping the Future of Safeguarding

# Dealltwriaeth yn Sgil Ymchwil: Atgyfnerthu Diogelu yng Nghymru

## DEALLTWRIAETH YN SGIL YMCHWIL 1: DYSGU O ADOLYGIADAU YMARFER OEDOLION

MAWRTH 2025




**AWDURON**

**Yr Athro Michelle McManus,** Athro Diogelu ac Atal Trais ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion.

**Emma Ball,** Cydymaith Ymchwil Diogelu ac Atal Trais ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion.

**Paige Monaghan,** Ymgeisydd am Ddoethuriaeth, Prifysgol Lerpwl.



# Dealltwriaeth yn Sgil Ymchwil: Atgyfnerthu Diogelu yng Nghymru

**DEALLTWRIAETH YN SGIL YMCHWIL 1:**
**DYSGU O ADOLYGIADAU YMARFER OEDOLION**
**MAWRTH 2025**

## CEFNDIR

Mae Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o adnabod heriau systemig a chyfleoedd i ddysgu ym maes diogelu. Mae'r adolygiad thematig hwn o **25 o Adolygiadau Ymarfer Oedolion (a oedd yn ymdrin â digwyddiadau rhwng 2016 a 2022)** yn taflu goleuni ar y tueddiadau allweddol, **yr heriau/rhwystrau a'r cyfleoedd i ddysgu'n amlasiantaethol drwy nodi enghreifftiau o arfer da**.

## MAE'R THEMÂU ALLWEDDOL A NODWYD YN CYNNWYS:

- **Dull gweithredu sy'n ymdrin â'r person cyfan:** Rhaid bod lleisiau oedolion yn ganolog ac yn amlwg mewn ymyriadau diogelu, a rhaid iddynt gael eu cofnodi'n briodol.
- **Cydlynu amlasiantaethol:** Ceir anghysondeb o hyd o safbwynt rhannu gwybodaeth, cydlynu achosion a chymryd camau gweithredu dilynol.
- **Eiriolaeth a galluedd meddyliol:** Mae eiriolaeth amserol a pharhaus yn hanfodol, yn ogystal â chamau gwell i ystyried, defnyddio a chofnodi ymholiadau ac asesiadau sy'n ymwneud â galluedd meddyliol.
- **Cymorth i'r gweithlu ac atebolrwydd:** Mae hyfforddiant, goruchwyliaeth a llwythi achosion y mae modd ymdopi â nhw'n hollbwysig er mwyn gallu diogelu'n effeithiol.
- **Argymhellion y gellir eu gweithredu:** Rhaid bod argymhellion Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn benodol ac yn fesuradwy a'u bod yn sbarduno newid go iawn.

Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu pum maes hollbwysig ar gyfer gwella, ac yn rhoi sylw i heriau, **gwaith dysgu allweddol ac enghreifftiau o arfer da.**

## THEMÂU DYSGU A DEALLTWRIAETH ALLWEDDOL

### 1. Dull diogelu wedi'i deilwra sy'n ymdrin â'r person cyfan

**Yr her:** Yn aml nid oedd safbwyntiau, dymuniadau a phrofiadau go iawn oedolion yn cael eu hystyried yn llawn ac nid oeddent yn amlwg mewn penderfyniadau diogelu. Mewn llawer o Adolygiadau Ymarfer Oedolion, roedd yna ddiffyg dogfennau clir ynghylch beth oedd yn bwysig i'r unigolyn, a oedd yn arwain at gymorth tameidiog ac aneffeithiol.

**Gwaith dysgu allweddol:**

- Rhaid i ddymuniadau oedolion gael eu ceisio, **eu cofnodi a'u hymgorffori ym mhob cynllun diogelu, a rhaid cofnodi'n glir sut y gweithredir ar sail unrhyw wybodaeth o'r fath**.
- **Rhaid i gymorth fod yn hyblyg fel ei fod yn cyd-fynd ag anghenion oedolion**, gan gydnabod bod anghenion yn newid gydag amser. Mae angen adolygu hynny'n rheolaidd.
- Dylai ymyriadau ganolbwyntio nid yn unig ar risg ond hefyd ar gryfderau, uchelgeisiau a rhwydweithiau cymorth yr oedolyn.

**Enghraifft o arfer da:**

- **Adolygiad Ymarfer Oedolion 15:** Mae staff ysbytai'n defnyddio dogfennau 'Dyma Fi' i deilwra gofal, gan sicrhau bod llais yr oedolyn wedi'i ymgorffori mewn penderfyniadau.

## 2. Cydlynu amlasiantaethol a chyd-atebolrwydd

**Yr her:** Roedd yr Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn tynnu sylw at gyfathrebu anghyson a bylchau mewn atebolrwydd, **yn enwedig yng nghyswllt camau gweithredu dilynol rhwng asiantaethau**. Roedd hynny'n arwain at oedi o ran adnabod risg ac o ran ymateb yn amserol. Roedd y diffyg cronfeydd data a rennir yn golygu nad oedd gwybodaeth hollbwysig yn aml yn cael ei rhannu, nad oedd sylw'n cael ei roi iddi ac nad oedd yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau.

**Gwaith dysgu allweddol:**

- Mae angen model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu i sicrhau bod cydlynu di-dor yn digwydd ar lefel weithredol a strategol.
- Rhaid i asiantaethau ymrwymo i wneud penderfyniadau mewn modd tryloyw, **gan sicrhau bod yna lwybrau uwchgyfeirio clir sy'n ei gwneud yn bosibl cymryd camau gweithredu dilynol fel mater o drefn**.
- Os nad oes yna gronfa ddata ganolog, rhaid i systemau ffurfiol ac anffurfiol amgen (megis cyfarfodydd rhyngasiantaethol rheolaidd) sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amserol.

**Enghraifft o arfer da:**

- **Adolygiad Ymarfer Oedolion 18:** Roedd cyfarfodydd wythnosol rhwng gwasanaethau cymdeithasol a nyrsys ardal yn ei gwneud yn bosibl i gydlynu amlasiantaethol gwell a thrafodaethau amser real am achosion ddigwydd.

## 3. Eiriolaeth amserol ac ystyrlon – yr angen am Gynnig Gweithredol

**Yr her:** Nid oedd llawer o oedolion yn cael cynnig eiriolaeth adeg ymyriadau tyngedfennol, neu roeddent yn cael cynnig eiriolaeth unwaith yn unig yn hytrach na'u bod yn cael ei chynnig fwy nag unwaith wrth i'w hamgylchiadau esblygu.

**Gwaith dysgu allweddol:**

- Rhaid i eiriolaeth gael ei chynnig yn gynnar, rhaid iddi gael ei hesbonio yn llawn, **a rhaid iddi gael ei chynnig eto adeg penderfyniadau allweddol, sef darpariaeth sydd i bob pwrpas yn cyd-fynd â'r** 'Cynnig Gweithredol' i blant sy'n derbyn gofal.
- Dylai dogfennau gofnodi manylion ynghylch a gafodd eiriolaeth ei derbyn ynteu ei gwrthod, gan sicrhau proses dryloyw sy'n cynnwys safbwynt yr oedolion.
- **Dylai hawl oedolion i gynrychiolaeth gael ei hatgyfnerthu drwy hyfforddiant i ymarferwyr ac eglurder prosesau.**

**Enghraifft o arfer da:**

- **Adolygiad Ymarfer Oedolion 10:** Roedd gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu cynnig fwy nag unwaith, a oedd yn sicrhau bod yr oedolyn yn cael cyfle i gael cymorth annibynnol pan oedd arno ei angen.

## 4. Asesiadau galluedd meddyliol

**Yr her:** Datgelodd Adolygiadau Ymarfer Oedolion anghysondeb yn y modd y câi galluedd meddyliol ei asesu a'i **gofnodi ac yn y modd y gweithredid ar sail hynny**. Nid oedd llawer o achosion yn cynnwys rhesymeg glir dros benderfyniadau'n ymwneud â galluedd, a oedd yn golygu bod oedolion yn cael eu gadael heb drefniadau diogelu priodol.

**Gwaith dysgu allweddol:**

- Pan ymholir ynghylch galluedd meddyliol, **rhaid i dystiolaeth a phenderfyniadau gael eu cofnodi ynghylch a oes angen cynnal asesiad ffurfiol. Rhaid i hynny gael ei gofnodi**, a rhaid i gamau gweithredu dilynol gael eu cofnodi'n glir.
- Mae ar ymarferwyr angen ymwybyddiaeth well o sut y gall galluedd meddyliol amrywio a phryd y mae angen cynnal ail asesiad, a rhaid i hynny gael ei gofnodi mewn systemau.
- **Dylai hyfforddiant ar draws sectorau egluro prosesau sy'n ymwneud â galluedd meddyliol**. Dylai ganolbwyntio ar weithredu'r ddeddfwriaeth ac ar ffactorau cyd-destunol ehangach.

**Enghraifft o arfer da:**

- **Adolygiad Ymarfer Oedolion 14:** Arweiniodd asesiad amserol gan nyrs ardal, a'r ffaith bod pryder am ddiogelu wedi'i uwchgyfeirio, at ymyriad brys gan yr ysbyty a wnaeth atal niwed pellach.

## 5. Dichonoldeb ac ansawdd argymhellion

**Yr her:** Nodwyd yn aml bod llawer o argymhellion Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn amwys, **bod diffyg atebolrwydd clir yn perthyn iddynt, neu'i bod yn anodd eu gweithredu**. Nid oedd rhai ohonynt yn defnyddio iaith y gellid gweithredu ar ei sail (e.e. "dylid codi ymwybyddiaeth") ac nid oeddent yn cynnwys camau gweithredu penodol.

**Gwaith dysgu allweddol:**

- **Dylai'r holl argymhellion fod yn glir ac yn ddichonol, a dylent egluro pwy fydd yn gyfrifol am eu gweithredu. Rhaid iddynt awgrymu amserlen, a rhaid iddynt nodi a ellir rhoi'r argymhelliad ar waith yn syth ynteu a oes angen gwneud rhagor o waith myfyrio ac ymgynghori.**

- Dylid crynhoi argymhellion Adolygiadau Ymarfer Oedolion a monitro cynnydd ar lefel leol a chenedlaethol, a dylent gael eu rhannu'n eang ar draws systemau diogelu a'u hailystyried adeg penderfyniadau allweddol: **sef darpariaeth sydd i bob pwrpas yn cyd-fynd â'r** 'Cynnig Gweithredol' i blant sy'n derbyn gofal.
- Dylid defnyddio'r Fframwaith ar gyfer Argymhellion wrth ddatblygu neu weithredu argymhellion, er mwyn gwella eglurder ac atebolrwydd a deall effaith argymhellion diogelu.

**Enghraifft o arfer da:**

- **Adolygiad Ymarfer Oedolion 10:** Roedd yn dangos effaith argymhellion clir a oedd yn ymwybodol o adnoddau, sy'n arwain at ddulliau gweithredu wedi'u symleiddio a chanlyniadau gwell. Roedd hefyd yn nodi ble'r oedd angen cymryd camau gweithredu pellach ac roedd yn awgrymu systemau/prosesau i helpu i gyflawni hynny.

## ARGYMHELLION I'W GWEITHREDU

### Ar gyfer Ymarferwyr a Rheolwyr Rheng Flaen

- **Dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y person:** Dylid sicrhau bod dymuniadau a phrofiadau go iawn oedolion yn cael eu cofnodi, **eu hadlewyrchu a'u hailystyried mewn cynlluniau diogelu.**
- **Ffocws ar hyfforddiant amlasiantaethol:** Dylid darparu a monitro hyfforddiant amlasiantaethol y bwriedir iddo gynyddu dealltwriaeth a chynyddu'r defnydd o chwilfrydedd proffesiynol, **galluedd meddyliol, ac eiriolaeth.**
- **Atgyfnerthu prosesau eiriolaeth:** Dylid sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei chynnig ar amryw adegau, ei bod yn cael ei chofnodi, a'i bod yn cael ei chynnig fwy nag unwaith wrth i amgylchiadau newid.
- **Goruchwylio a myfyrio'n rheolaidd:** Dylid darparu cymorth trefnus ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ar gyfer lles y gweithlu.

### Arweinwyr Strategol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol

- **Gwella cydlynu amlasiantaethol:** Dylid cyflwyno adnoddau megis y model 12 Elfen er mwyn deall ac adolygu trefniadau rhannu gwybodaeth a mynd ar drywydd blocwyr a galluogwyr ar draws y system ddiogelu.
- **Sicrhau atebolrwydd clir a llwybrau uwchgyfeirio:** Dylid sicrhau bod cyfrifoldebau diogelu amlasiantaethol yn cael eu diffinio'n glir, yn cael eu cydlynu ac yn cael eu hadolygu ar lefel Byrddau Diogelu Rhanbarthol.
- **Gwella'r modd y caiff argymhellion eu monitro a'u gweithredu:** Tracio'r modd y caiff argymhellion Adolygiadau Ymarfer Oedolion eu gweithredu a thracio eu heffaith yn rhanbarthol, a defnyddio canfyddiadau i lywio adolygiadau cyfredol a llunio argymhellion.

### Ar gyfer Llunwyr Polisi a Chyrff Cenedlaethol

- **Safoni argymhellion Adolygiadau Ymarfer Oedolion:** Dylid gweithredu'r **Fframwaith ar gyfer Argymhellion** (gweler Ffigur 1 isod) er mwyn sicrhau bod Adolygiadau Ymarfer Oedolion (sef Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl erbyn hyn) yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd trasig hyn i ddysgu ac yn arwain at newid go iawn.
- **Datblygu Arweiniad Cenedlaethol ar Ymarfer Diogelu Oedolion:** Dylid mynd i'r afael â bylchau rhwng polisi ac ymarfer, yn enwedig yng nghyswllt galluedd meddyliol, **hunanesgeuluso ac eiriolaeth.**
- **Gwella ac adolygu proses** Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl: Dylid defnyddio'r hyn a ddysgir o Adolygiadau Ymarfer Oedolion (Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl) i lywio llywodraethiant gwell ar lefel genedlaethol ym maes diogelu a thryloywder gwell mewn canfyddiadau o adolygiadau, a gwella cyfathrebu rhwng Byrddau Diogelu Rhanbarthol a chyrff cenedlaethol.

## MYFYRDODAU WRTH GLOI A GALWAD I WEITHREDU

Mae'r adolygiad hwn yn atgyfnerthu'r angen dybryd am welliannau systemig ym maes diogelu oedolion, ac mae'r broses Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a roddwyd ar waith yn ddiweddar (ym mis Hydref 2024) yn gyfle i fyfyrio ynghylch y canfyddiadau hyn a'u hadolygu ochr yn ochr â'r arweiniad a'r prosesau sy'n perthyn iddynt. Drwy ymgorffori llywodraethiant clir, **dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y person, a chydweithio amlasiantaethol effeithiol, gallwn sbarduno newid go iawn**.

**Y CAMAU NESAF:**

- Rhannu'r ddealltwriaeth hon â Byrddau Diogelu, **llunwyr polisi ac ymarferwyr**.
- Ymgorffori'r gwaith o weithredu'r argymhellion hyn mewn hyfforddiant amlasiantaethol, **cynlluniau strategol a diweddariadau polisi, ac adolygu'r gwaith hwnnw**.
- Defnyddio'r papur briffio hwn i lywio diwygiadau cenedlaethol ym maes diogelu a llywio proses Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.

**Ffigur 1. Y Fframwaith ar gyfer Argymhellion**

# FFRAMWAITH ar gyfer ARGYMHELLION

## YSGU MYFYRIOL A PHWYNTIAU GWEITHREDU

**1. Y BROBLEM**
Beth yw'r brif broblem y tynnir sylw ati yn yr argymhelliad? A yw'n cael ei mynegi'n glir?

**2. Y BWRIAD**
A yw'r argymhelliad yn gofyn am waith myfyrio ehangach ynghylch dysgu neu'n gofyn am gam gweithredu penodol? A yw'r iaith a ddefnyddir yn adlewyrchu hynny'n briodol?

**3. Y GOBLYGIADAU**
Beth yw'r dystiolaeth ynghylch goblygiadau posibl y broblem hon, sy'n cynnig sail resymegol ar gyfer y cam gweithredu a argymhellir?

**4. GWEITHREDU**
Beth yw'r ystyriaethau ymarferol o ran gweithredu'r argymhelliad hwn, a'r amserlenni a ragwelir?

**5. CYNNWYS ERAILL**
Pwy y mae angen eu cynnwys yn y gwaith o arwain a datblygu'r argymhelliad hwn, ac ym mha fforddd?

**6. GORGYFFWRDD**
Sut y mae'r argymhelliad hwn yn gorgyffwrdd ag argymhellion ehangach ym maes ymchwil a pholisi, yn ogystal â materion gwleidyddol a chymdeithasol ehangach?

**7. EFFAITH**
I werthuso effeithiolrwydd gweithredu'r argymhelliad hwn, sut y gellid ei fonitro o ran cynnydd a mesur ei effaith?

**Nod y fframwaith hwn yw optimeiddio eglurder argymhellion, y modd y cânt eu gweithredu ac atebolrwydd amdanynt. Mae'n nodi saith elfen allweddol y dylid myfyrio yn eu cylch a'u hystyried wrth ddatblygu argymhellion neu'u gweithredu.**

## I GAEL RHAGOR O WYBODAETH, CYSYLLTWCH Â:

Yr Athro Michelle McManus, M.McManus@mmu.ac.uk

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru
National Independent Safeguarding Board Wales

Cafodd yr adolygiad ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru